

CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 15ed MEDI 2020 YN CAPEL GAD BODFFORDD

PRESENNOL:

Dim Cyfarfod oherwydd Coronafeirws. (Y Clerc mewn cysylltiad a'r Cadeirydd a'r Cyngorwyr trwy e-bost neu ffon.)

YMDDIHEURIADAU:

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB.

CAEL COFNODION 21ain GORFFENNAF 2020 YN GYWIR.
I'w sganio'n gyflum pan fydd y cyfarfodydd yn ailgychwyn.

MATERION YN CODI O'R COFNODION.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. ENF/2020/177. Tor Reolaeth Cynllunio Honedig (Cwyn)
Addasu ac ehangu.
Gwaith yn cael ei wneud ar y ty. Dim cynllun wedi dod i'r Cyngor.
Y Cyngor Sir yn edrych i fewn.
Castell, Tynlon.
2. FPL/2020/122. Cais llawn ar gyfer codi annedd gyda balconi yn:-
Tyddyn Isaf, Bodffordd.
Cefnogaeth. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad. Cyng J E Lewis yn datgan diddordeb.

PENDERFYNIADAU.

3. ENF/2019/188. Tyn Pwll, Tynlon.
Yr Adran Cynllunio y Cyngor Sir wedi ymweld a'r safle ac wedi cyfarfod y perchennog.
Mae tor rheolaeth cynllunio wedi cymryd lle ar y safle ac mae y perchennog yn bwriadu cyflwyno cais. Bydd y manylion yn cael ei gyrru atom.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

4. Daniel M Jones (*Adran Prifffyrdd Cyngor Sir*)
Tramwy Trwy Llynfaes.
Derbyniwyd cwyn gan Mr Phil Coventry, perchennog Treflys, Tynlon i'r Cyngorydd Sirol Dylan Rees gyda cyflymder y tramwy o Chwarel Gwyndy trwy Llynfaes. Maen't yn y ddeffro yn y bore. R'oedd yr arolwg recordio cyflymder a dosbarth cerbydau yn pasio 24 awr y dydd 28.7.20 i 11.8.20 yn dangos cyflymder cyfartaledd o 35mya o fewn terfyn cyflymder cyfreithiol o 40mya. Mae'r canlyniad yn dangos na rhan o gerbydau mawr yn trafellio trwy Llynfaes yn berthnasol isel ar 16%. Wrth gymharu canlyniad yr arolwg i arolwg cyflawnyd yn 2015. Cadarnhawyd mae cyfartaledd tramwy dyddiol a nifer o gerbydau mawr trwy'r pentref wedi aros yn debyg.
Cymryd yr ystyriaeth o'r canlyniad o'r arolwg ac arweiniad gan Llywodraeth Cymru i osod terfyn cyflymder lleol yng Nghymru, mae'r Adran Prifffyrdd yn dal o'r fam cyfyngu y cyflymder wedi ei osod yn gywir 40mya. Mae'r adroddiad wedi mynd i Heddlu Gogledd Cymru.
Cafwyd ymateb gan Mr Coventry yn uniongyrchol i Cyng Sirol Dylan Rees.
Well Dylan what can I say, I am in total disbelief of the attitude of the powers that be (disgyn y cyflymder i 30mya) Please, please keep going Dylan. **How can we be ignored.**
Mae Cyng D Rees wedi anfon yn ol:- Rest assured. I will keep going with this issue, which is why I have requested a meeting with Officer (Daniel M Jones) Adran Prifffyrdd.
Bydd cyfarfod yn fuan gyda'r Swyddog. Cyng Sirol D Rees, Deiliad Portfolio Cyng B Parry a cynrychiolaeth o'r Cyngor Cymdeithas.

Anfonwyd ymateb yn uniongyrchol i Daniel M Jones (Adran Prifffyrdd y Cyngor Sir) gyda copi i Cyng D Rees a Cyng B Parry.

Mae y Cyngor wedi treulio ei gynnwys ac maen't yn berffaith hapus o'r ymateb. Ac yn cytuno fod y terfyn cyflymder wedi ei ddodi yn iawn ar 40mya.

Mae fan wen sydd yn parcio yn rheolaidd ar ochr y lon ger Treflys (Y Perchennog) yn arafu tramwy i lawr, ond mae yn gwneud i'r cerbydau sydd yn mynd am Bodffordd i arafu neu stopio i gerby / au sydd yn dod am Llynfaes, mae hyn yn achos i fwy o dwrw pan maen't yn ail gychwyn. Efallai y buasai yn syniad da cael llinell felyn o Pen y Bryn nes cyrraedd y Neuadd Goffa.

Mae tri Cynghorwr yn byw ar y ffordd o pentref Glanrafon trwy Llynfaes (un ar hyd ei oes wyth deg mlynedd) ac nid oes cwyn ganddynt.

Mae Chwarel Gwyndy yn fara a menyn i lawer o Gyflogwyr a Defnyddwyr (sydd yn cario cerrig lleol a pellach) felly nid ydyw yn deg ei collfarnu gan un ardalwr.

Mae yn gweiddi, eisiau'r lloerriau o'r Chwarel fynd trwy Trefor i'r A5, wedi trio amser yn ol, cerbydau yn cael trafferth i droi yn y sgwar ar lon rhy gul.

Y Cynghorwyr ddim hoffi ymateb Mr Coventry (Treflys) i Cyng D Rees. How can we be ignored.

Mae yn dangos fod y ddau ar delerau cyfeillgar iawn.

Dros hanner o'r Cynghorwyr yn cefnogi yr adroddiad gan y Cyngor Sir a thri ddim yn ymateb. Un yn meddwl am arolwg arall pan mae Covid drosodd.

5. Steven W Owen (Rheolwr Gorfodaeth Cynllunio)

Mynediad Newydd Glan Gors, Tynlon.

Cyfeirio i sgwrs gyda'r Clerc ar y ffon 4ydd Awst 2020 i drafod y mater uchod mewn ymateb ebost dderbyniwyd dyddiedig 1af Awst 2020.

Fel eglurwyd yn ystod y sgwrs mae'r achos bellach wedi cloi ers mis Ionawr 2019, gwaetha ymdrechion y Gwasanaethau i gael cais cynllunio gan Mr D M Roberts (Mr D M Evans dylai fod) er mwyn rheoleiddio'r mater.

Ymddiheuraf am y flaith na chafodd y Cyngor Cymdeithas ei hysbysebu o'r flaith yma, ond yn anffodus wrth fod y fynedfa wedi bod mewn bodolaeth ers dros 4 blynedd, ni fyddai'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gallu cymryd camau gorfodi Cynllunio ffurfiol yn y mater.

Pwy'n bynnag, mi fydd yr Adran yn cysylltu mbellach gyda'r Adran Prifffyrdd mewn ymdrech i greu gwelliannau i'r sefyllfa fel mae ar hyn o bryd. Mi fydd yr Adran mewn cysylltiad pellach er mwyn ein diweddarau mae o law.

Nid yw'r Cyngor yn hapus a hyn wedi ysgrifennu iddynt ers Medi 2014 (Edrych i fewn) May 2015, Tachwedd 2015, Ebrill 2016, Ebrill 2017 ar diweddaraf.

Wedi pwyntio allan i'r Adran mae yn amwg nad ydyw Swyddog / ion yn gwneud ei gwaith a dylai fod rhywun yn cael ei ddal yn gyfrifol am hyn.

Felly os oes rhywun angen mynediad i'r lon y cwbl sydd angen ei wneud i'w agor? A disgwyl i bedair blynedd fyn heibio.

Nid yw'r ymateb gan y Cyngor Sir yn dderbyniol. Ond ni ellir gwneud dim oherwydd analluogrwydd un Swyddog o'r Cyngor Sir. Gwneud yn siwr yn y dyfodol na ydyw hyn yn digwydd eto.

6. Iwan Cadwaladr, (Adran Prifffyrdd a Thrafnidiaeth)

Gwasanaeth Bws trwy Llynfaes.

Yn anffodus nid oes gan y Cyngor Sir Awdurdod Rheolaeth ar Wasanaeth Bws Masnachol mae Arriva yn ei weithredu. Os daw gwybodaeth i law fod gweithredwr am ail gyflwyno gwasanaeth drwy'r pentref yn cawn ein hysbysu. Derbyn y wybodaeth a gobeithio y bydd yn ail gychwyn.

7. Ed Henderson, (Uwch Swyddog Tirlunio a Choed.)

Coed Mynwent Gymunedol Bodffordd.

Wedi cael golwg ac wedi adnabod y coed. Disgwyl am gael penderfyniad i symud ymlaen.

GOHEBIAETH (ARALL)

8. Gair o ddiolch gan Ysgrifenyddes y Neuadd Goffa (Miss Lowri Owen) am y rhodd tuag at y addasu ac ehangu.

RHODDION

9. Ty Gobaith, Conwy. Gadael hyd Mawrth 2021.

PLWYFOL:

10. Dim.

MATERION ARIANNOL:

11. Cyfrif Rhedegol 11,940.57. (Preseb 2. £3,666.66)

TALIADAU:

12. Clerc £220.83. Treth Incwm 2. £165.60. Gweinyddu (3 mis) £186.27.

Er nas oes cyfarfod yn bodoli mae yn rhaid dan rheol dalu y dyledion i gyd.